**Adran yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Department for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

05 Rhagfyr 2023

Annwyl ,

**ATISN 19260**

**Cais am wybodaeth**

Diolch ichi am eich cais a ddaeth i law ar 07 Tachwedd. Gwnaethoch ofyn am y canlynol:

*Copi o bob Gohebiaeth rhwng y BBC a Llywodraeth Cymru eleni ynghylch yr adroddiad 'Dyfodol newydd ar gyfer darlledu a chyfathrebu yng Nghymru'.*

**Ein hymateb**

Mae'r wybodaeth y gwnaethoch ofyn amdani wedi'i hatodi yn Nogfennau 1, 2, 3, 4 a 5.

Rwyf wedi penderfynu bod rhywfaint o'r wybodaeth yn esempt o dan adran 40(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac felly mae wedi cael ei dal yn ôl. Mae'r rhesymau dros gymhwyso'r esemptiad hwn yn cael eu nodi'n llawn yn Atodiad 1 i'r llythyr hwn.

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru i'r cyfeiriad isod:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i wneud cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth.  Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:  Information Commissioner's Office,
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire,
SK9  5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes iddi fod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir,

**Atodiad A**

**Cymhwyso esemptiadau/eithriadau**

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn rhoi hawl i unrhyw un ofyn i awdurdod cyhoeddus sicrhau bod gwybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael i'r cyhoedd ehangach. Gan y bydd gwybodaeth y gofynnir amdani yn cael ei rhyddhau i'r byd a'r betws, nid i'r sawl sydd wedi gofyn am yr wybodaeth yn unig, mae angen i awdurdodau cyhoeddus ystyried effeithiau rhyddhau'r wybodaeth i bawb. Ni all unrhyw fuddiant personol sydd gan y sawl sy'n gwneud cais am fynediad i'r wybodaeth fod ar draul yr ystyriaethau ehangach hynny.

Rwyf wedi penderfynu dal yr wybodaeth ganlynol yn ôl:

- Enwau a chyfeiriadau e-bost gohebwyr – Adran 40(2) – Gwybodaeth bersonol

Mae'r Atodiad hwn yn nodi ein rhesymau am gymhwyso adran 40(2)(c) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac am ystyried wedyn Brawf Lles y Cyhoedd.

**Adran 40(2) – Data Personol**

Mae adran 40(2), ynghyd â'r amodau yn adran 40(3)(a)(i) neu 40(3)(b), yn darparu esemptiad absoliwt pe byddai datgelu'r data personol yn torri unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data.

Diffiniad 'data personol' yn adrannau 3(2) a (3) o Ddeddf Diogelu Data 2018 ('DPA 2018') yw unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn byw neu y gellir ei defnyddio i adnabod unigolyn byw. mae unigolyn y gellir ei adnabod yw unigolyn y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn enwedig drwy gyfeirio at ddynodydd megis enw, rhif adnabod, data am leoliad, dynodydd ar-lein neu un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, genetig, feddyliol, economaidd, ddiwylliannol neu gymdeithasol yr unigolyn hwnnw.

Rydym wedi dod i'r casgliad, yn yr achos hwn, bod yr wybodaeth y gofynnwyd amdani'n cynwys data personol trydydd parti.

O dan Adran 40(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae data personol yn cael ei esemptio rhag cael ei ryddhau pe byddai gwneud hynny'n torri un o'r egwyddorion diogelu data a nodir yn Atodlen 5 o'r GDPR (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data). Rydym yn ystyried mai'r egwyddor fwyaf perthnasol yn yr achos hwn yw'r gyntaf. Mae hyn yn nodi bod rhaid i ddata personol

*a) cael ei brosesu yn gyfreithiol, yn deg ac yn dryloyw mewn perthynas â phwnc y data;*

Y sail gyfreithiol sydd fwyaf perthnasol mewn perthynas â chais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yw Erthygl 6(1)(f). Mae hon yn dweud:

*"mae angen prosesu'r data at ddiben buddiannau dilys y rheolydd neu drydydd parti, ac eithrio pan fydd buddiannau o'r fath yn ddarostyngedig i fuddiannau neu hawliau sylfaenol a rhyddid gwrthrych y data sy'n gofyn am ddiogelu data personol, yn benodol pan fydd gwrthrych y data'n blentyn".*

Wrth ystyried cymhwyso Erthygl 6(1)(f) mewn perthynas â chais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae angen ystyried y prawf tair rhan canlynol:-

- **Y Prawf Buddiannau Dilys**: A yw cais am wybodaeth at ddiben buddiant dilys
- **Prawf Angen**: A oes angen datgelu'r wybodaeth/cadarnhau neu wadu bod yr wybodaeth yn cael ei chadw er mwyn bodloni'r buddiant cyfreithiol o dan sylw;
- **Y prawf Cydbwyso**: A yw'r buddiannau uchod yn fwy pwysig na buddiannau, hawliau sylfaenol a rhyddid gwrthrych y data.

Nodir ein hystyriaethau ynghylch y profion hyn isod:

**1. Buddiannau Dilys**

Y data personol yw enw gohebwyr yn yr ohebiaeth sy'n gysylltiedig â'r cais hwn. Mae buddiant dilys o ran deall cyd-destun y cyfathrebu, y ffordd yr ymdriniwyd ag ef ac at ba sefydliadau roedd yr ohebiaeth wedi'i hanfon. Pan fydd yr ohebiaeth at uwch swyddogion, mae buddiant dilys wrth ddeall y cyd-destun sy'n benodol i'r rhain, oherwydd eu swyddi cyhoeddus.

**2. A oes angen datgelu'r wybodaeth?**

Ac eithrio swyddi uwch a chyhoeddus, nid oes angen datgelu'r data personol er mwyn ymateb i'r buddiant dilys, pan fyddwn yn gallu darparu cyd-destun y cais yn lle hynny. Drwy ddisodli'r enwau â'r cyd-destun (e.e. Swyddog Llywodraeth Cymru 1 ac ati) gallwn ddangos cyd-destun mater y mae'r buddiant dilys yn gysylltiedig ag ef heb ddatgelu data personol, a fyddai'n effeithio ar hawliau sylfaenol gwrthrychau'r data o dan ddeddfwriaeth diogelu data.

**3. Y cydbwysedd rhwng buddiant dilys a buddiannau gwrthrych y data neu hawliau a rhyddid sylfaenol**

Oherwydd bod y fersiwn o'r wybodaeth gyda data personol wedi'i guddio'n bodloni'r buddiant dilys, nid oes angen ystyried cydbwysedd buddiannau ymhellach, ac rydym wedi dal yr wybodaeth hon yn ôl. Fodd bynnag, pan fydd y gohebwyr yn swyddogion uwch mewn swyddi cyhoeddus, credwn mai'r cydbwysedd buddiannau yw ymateb i'r buddiant dilys mewn deall cyd-destun y cyfathrebu mewn perthynas â'r bobl benodol hyn, ac felly nid yw'r wybodaeth yn cael ei dal yn ôl yn yr achosion hynny.